NHS
Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

Cyngor i gleifion

21

Rhybudd

28 Mawrth 2007

DEALL CYNGOR YR ASIANTAETH

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn helpu sefydliadau gofal iechyd i ddarparu gofal iechyd mwy diogel i bawb. Mae'r wybodaeth yma am gyngor yr Asiantaeth i sefydliadau gofal iechyd ynglŷn â sicrhau bod moddion epidwral yn cael eu gweini'n ddiogel.

Sicrhau arfer mwy diogel wrth drafod pigiadau epidwral ac arllwysiadau

Mae epidwral yn un math o anesthetig y gallech ei gael wrth gael llawdriniaeth ar ran isaf eich corff. Byddai'n eich rhwystro rhag teimlo unrhyw boen, ond nid yw'n eich gwneud yn anymwybodol. Caiff ei ddefnyddio'n aml i liniaru poen genedigaeth.

Mewn ysbytai, bydd epidwral yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd fel dull diogel o reoli poen.

Mae'n rhaid i foddion epidwral gael ei chwistrellu'n syth i mewn i'r asgwrn cefn, yn hytrach nag i wythïen yn y fraich fel sy'n digwydd gydag anesthetig cyffredinol. Cafwyd adroddiadau am nifer fechan iawn o gleifion gafodd niwed oherwydd fod moddion epidwral wedi'i chwistrellu i fraich y claf mewn camgymeriad. Adroddwyd fod tri chlaf wedi marw oherwydd hyn rhwng 1 Ionawr 2005 a 31 Mai 2006.

Derbyniodd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion hefyd adroddiadau fod y cyffur anghywir neu'r dos anghywir o foddion epidwral wedi'i roi i gleifion. Ni chafodd y cleifion unrhyw niwed o ganlyniad i hyn yn y mwyafrif o'r achosion.

Rhoddodd yr Asiantaeth gyngor i sefydliadau gofal iechyd am ddulliau o sicrhau fod pigiadau epidwral yn cael eu rhoi yn ddiogel. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys canllawiau i staff ar sut i gadw, labelu a gweini moddion epidwral yn gywir.

Ynglyn â'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

Mae'r Asiantaeth yn hyrwyddo gofal iechyd mwy diogel drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddiogelwch cleifion gan staff a chleifion, a thrwy weithio gyda sefydliadau gofal iechyd i hybu diwylliant agored a theg.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am waith yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, ewch i'n gwefan ar: **www.npsa.nhs.uk**